# Llais y Llywodraethwyr 2023-24

# Adroddiad Blynyddol i'r rhieni

Mae'r adroddiad hon yn cwmpasu'r flwyddyn addysgol 2023-24

## Gair gan y Cadeirydd

Roedd dechrau'r flwyddyn ysgol yn cynnwys paratoadau ar gyfer arolygiad Estyn a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2023. Os nad ydych eto wedi darllen yr adroddiad arbennig a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, yna mae'n werth gwneud hynny. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Estyn neu drwy ddolen ar wefan yr ysgol a geir o dan y pennawd 'Hysbysfwrdd'. Mae'n adroddiad y gall holl gymuned yr ysgol fod yn falch ohono ac yn pwysleisio'r safonau uchel mewn gofal ac addysg sy'n bodoli yn yr ysgol.

Tair blaenoriaeth yr ysgol ar gyfer 2023 – 2024, a nodwyd o adolygiad o berfformiad y flwyddyn flaenorol, oedd:

- Datblygu sylfaen gadarn mewn sgiliau rhif drwy'r ysgol gyfan a datblygu darpariaeth Dosbarth Blwyddyn 2 a 3 a chynlluniau i gynnig cyfleoedd effeithiol i gymhwyso'r medrau mewn gweithgareddau trawsgwricwlaidd ar draws y chwe maes dysgu.
- Targedu dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg trwy drochi dosbarthiadau meithrin, derbyn a blwyddyn 1 yn yr iaith Gymraeg yn effeithiol.
- Datblygu creadigrwydd o'r meithrin i ddysgwyr blwyddyn 3 trwy ddefnyddio ystod o adnoddau, defnyddiau, technegau a phrosesau ar draws pob math o gelf, crefft a dylunio.

Llwyddwyd i gwrdd â'r tair blaenoriaeth hyn erbyn diwedd y flwyddyn trwy gynllunio gofalus er mwyn addysgu'r sgiliau a'u gweithrediad mewn gweithgareddau trawsgwricwlaidd cyffrous sydd wrth wraidd y Cwricwlwm Newydd i Gymru. Ymysg y gweithgareddau oedd ymweliad â Bwyty Fu's yng Nghaernarfon, fel rhan o thema'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, gweithdy argraffu gyda'r artist Zoe Lewthwaite, i ddysgu techneg celf newydd a defnyddio sgiliau rhifedd yn ystod sesiynau garddio ac ym mentrau Menter Morfa. Mae lluniau o'r gweithgareddau hyn a llawer mwy y bu'r disgyblion yn cymryd rhan ynddynt yn ystod y flwyddyn i'w gweld ar dudalen Facebook Ysgol Morfa Nefyn.

Ym mis Gorffennaf ffarweliodd y disgyblion â dwy aelod gwerthfawr o staff yr ysgol sef Sioned Elen Jones a Megan Haf. Bydd colled fawr ar ôl y ddwy, a dymunwn y gorau iddynt wrth iddynt ddechrau penodau newydd yn eu bywydau. I baratoi ar gyfer cyfnod mamolaeth Miss Nia Ferris, a fydd yn cychwyn ym mis Medi 2024 penodwyd Mrs Cara Jones i ofalu am ei dosbarth CA1. Dymunwn y gorau hefyd i Miss Ferris ac edrychwn ymlaen at newyddion am y newydd ddyfodiad. Yn y cyfamser, mae cyfrifoldeb am redeg yr ysgol wedi ei adael yn nwylo galluog a phrofiadol Mrs Sioned Jones. Rwy'n hyderus y bydd hyn yn arwain at barhad di-dor o'r safonau eithriadol uchel o ofal ac addysg sy'n bodoli yn yr ysgol.

Yn gywir,

Nerys Wyn Jones

## Pwy di pwy ar y corff Llywodraethol (2023-24)

**Pennaeth:**
Miss Nia Ferris

**Cadeiryddes y Corff:**
Miss Nerys Wyn Jones

**Rhiant Lywodraethwyr:**
Miss Ceri-Ann Evans
Mr Gareth Wright

**Athro Llywodraethwyr:**
Miss Nia Ferris
Mrs Sioned Jones

**Llywodraethwyr AALL:**
Miss Nerys Wyn Jones
Mr Huw Griffith

**Cyngor Cymuned:**
Miss Mared Llywelyn Williams

**Cyfethol Cymunedol**
Miss Karen Vaughan Jones
Mrs Anna Butterworth

**Clerc y Llywodraethwyr:**
Mrs Nia Wyn Williams
Swyddfa Addysg Ardal Dwyfor,
Swyddfeydd y Cyngor,
Ffordd y Cob,
Pwllheli,
Gwynedd.
LL53 5AA

## Cyfarfodydd y Corff Llywodraethol:

Bydd y Corff yn cyfarfod ddwy waith bob tymor i dderbyn adroddiad manwl gan y Pennaeth. Adroddodd y pennaeth yn dymhorol ar gyraeddiadau disgyblion a phresenoldeb, materion Cwricwlaidd a chanlyniadau, anghenion dysgu ychwanegol, lles, rheolaeth, staffio a chyllid yn ogystal ag adrodd ar lwyddiant yr ysgol, amrywiol weithgareddau a digwyddiadau. Mae cofnodion llawn o'r cyfarfodydd ar gael yn yr ysgol.

Bydd is-bwyllgorau (adeiladau, cyllid ac amddiffyn plant) yn cyfarfod er mwyn trafod a gwneud penderfyniadau ynglŷn â materion sydd yn codi. Mae cofnodion llawn o'r cyfarfodydd ar gael yn yr ysgol.

**Polisïau**
Mabwysiadwyd ac adolygwyd nifer o bolisïau yn ystod y flwyddyn. Mae copïau o'r polisïau ar gael yn yr ysgol ac ar wefan yr ysgol.

**Dyddiadau Cyfarfodydd**
Bu i'r Corff Llawn gyfarfod ar 23/10/23, 4/12/23, 11/3/24, 13/5/24, 8/7/24
Yn ogystal â hyn cynhaliwyd cyfarfodydd o'r gwahanol banelau.

**Adroddiad ar weithredu yn dilyn cyhoeddi adroddiad Hydref 2023**
Ni chynhaliwyd cyfarfod gan na ofynnwyd am gyfarfod gyda'r llywodraethwyr gan y rhieni.

## Dyddiadau tymor ysgol a gwyliau 2023-24

Hydref 2023 1 Medi 2023 - 22 Rhagfyr 2023
Gwanwyn 2024 8 Ionawr 2024 - 22 Mawrth 2024
Haf 2024 8 Ebrill 2024 - 19 Gorffennaf 2024

### DYDDIADAU GWYLIAU

30 Hydref - 3 Tachwedd 2023 (Hanner-Tymor)
25 Rhagfyr 2023 - 5 Ionawr 2024 (Gwyliau'r Nadolig)
12 - 16 Chwefror 2024 (Hanner-Tymor)
25 Mawrth - 5 Ebrill 2024 (Gwyliau'r Pasg)
6 Mai 2024 (Calan Mai)
27 - 31 Mai 2024 (Hanner-Tymor)
22 Gorffennaf - 30 Awst 2024 (Gwyliau'r Haf)

## Llawlyfr yr ysgol

Cyhoeddir llawlyfr ar gyfer rhieni yn flynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadau'r ysgol. Rhennir y llawlyfr gyda rhieni plant newydd sy'n cychwyn yn yr ysgol ac mae copi o'r llawlyfr ar gael yn yr ysgol neu ar wefan yr ysgol.

## DATGANIAD ARIANNOL

Cynhelir cyfarfod o'r Panel Cyllid yn dymhorol ac mae'r llywodraethwyr yn adolygu polisiau yn ymwneud â chyllid yn unol â'r gofynion.

**Gwariant perthnasol o gyfrifon terfynol yr ysgol am 2023-24** – Gweler atodiad 1

**Cronfa'r ysgol**
Hon yw'r gronfa ar gyfer gwariant bob dydd. Mae'r gronfa yn cael ei harchwilio yn flynyddol gan gyfrifydd allanol, yn unol â'r gofynion ac mae manylion ar gael yn yr ysgol pe dymunir eu gweld.

**Rhoddion i'r ysgol**
Yn flynyddol mae'r Gymdeithas Rieni yn brysur iawn yn casglu arian ar gyfer yr ysgol. Mae'r ysgol wedi gwneud yn fawr o'r cyfraniadau gan brynu adnoddau a thalu am dripiau addysgiadol i'r plant. Rydym fel Corff Llywodraethol yn gwerthfawrogi eu hymdrechion yn fawr iawn.

**Costau teithio a Chynhaliaeth Llywodraethwyr**- £0

# Cyswllt gyda'r gymuned




Mae gan yr ysgol gyswllt glos iawn gyda'r gymuned. Rhoddir bwyslais yn yr ysgol i baratoi disgyblion ar gyfer bywyd oedolion yn eu cymuned drwy feithrin ysbryd o gydweithredu a pharch tuag at ei gilydd a'r bobl o'u hamgylch. Cynhaliwyd y cyngerdd Diolchgarwch a'r Cyngerdd Nadolig yn Eglwys Santes Fair.

Rydym yn hynod o lwcus o aelodau talentog y gymuned yma yn Morfa Nefyn. Gwahoddwyd Mared Llywelyn, Anna Butterworth, Gwawr Maelor a Niki Pilkinton i feirniadu yn ein Eisteddfod ysgol ar ddydd Gŵyl Dewi.





**Merched y Wawr**

Bydd aelodau Merched y Wawr yn ymuno gyda ni yn rheolaidd yn yr ysgol i wrando ar y plant yn darllen.



**Plas Madryn**

Yn dilyn y cyngerdd Diolchgarwch, bydd yr ysgol yn cyfrannu llysiau a ddefnyddiwyd i addurno'r Eglwys i Blas Madryn.
Byddwn yn mynd i Blas Madryn yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ganu i'r preswylwyr yn dilyn cyngherddau'r ysgol, ac yn canu carolau Nadolig iddynt cyn diwedd tymor yr Hydref.

# Ymweliadau ac ymwelwyr

Trefnwyd ymweliadau amrywiol yn ystod y flwyddyn i gefnogi a sbarduno'r dysgu:

- Trip Nadoligaidd i weld Sion Corn yn siop fferm Abersoch.
- Trip diwedd blwyddyn i Pili Palas.
- Ymweliad i Fu's, Caernarfon fel rhan o ddathliadau Blwyddyn Newydd Tsieina.
- Ymweliad gan Zoe Lewthwaite, artist lleol i ddysgu sgiliau argraffu.
- Ymweliadau rheolaidd gan Nia Williams i gynnal gwasanaethau.
- Gweithdai drama gan Rhodri Trefor.
- Ymweliad gan PC Rhiannon Wright i ddysgu sut i gadw'n ddiogel.
- Sioe Paid cyffwrdd Dweud i ddysgu negeseuon pwysig am gadw'n ddiogel.
- Technocamps Bangor i ddysgu sgiliau codio.
- Cawsom llawer o deithiau o gwmpas Morfa Nefyn wrth ddysgu mwy am ein hardal leol.



## Cefnogi elusennau



Mae'r ysgol yn cefnogi elusennau, cymdeithasau a busnesau lleol yn flynyddol. Yn 2023-24, cefnogwyd:

- Plant Mewn Angen
- Diwrnod Siwmperi Nadolig
- Ambiwlans awyr

## Siarter iaith

Trefnwyd llawer o weithgareddau yn yr ysgol i gefnogi Siarter iaith Gwynedd ac annog yr iaith gymraeg yn yr ysgol a'r cartref.

- Diwrnod Owain Glyndwr
- Diwrnod Shwmai Su'mae?
- Dydd miwsig Cymru
- Santes Dwynwen
- Dydd Gŵyl Dewi

## Gweithgareddau chwaraeon

Cafodd y plant wersi ymarfer corff yn y Ganolfan Hamdden ym Mhwllheli. Mae'r amserlen yn cynnwys gwersi nofio, gymnasteg, dawns a gemau. Cynhaliwyd Glwb ffitrwydd ar ôl ysgol yn ystod tymor yr Haf i blant blwyddyn Derbyn i flwyddyn 3. Bu'r plant yn cymryd rhan yn ogystal yn y clwb dal i fynd, ble maent yn rhedeg milltir yn wythnosol o gwmpas cae yr ysgol.



## Llais y plentyn

Mae plant yr ysgol yn cael cyfrannu eu syniadau i fywyd a threfn yr ysgol drwy amrywiol ffyrdd: trafodaethau, holiaduron, Y Cyngor Ysgol, eco-bwyllgor, Menter Morfa. Mae'r plant hefyd yn cyfrannu i gynllunio gwaith y dosbarth drwy gynnig syniadau am yr hyn yr hoffent eu dysgu a syniadau am sut y gellir gwneud hynny.

Yn ystod 2023-24 bu iddynt godi arian at elusennau amrywiol a meddwl am syniadau ar gyfer diwrnodau dathlu. Mae adran 'Y Cyngor Ysgol' ar wefan yr ysgol yn gofnod o holl weithgareddau'r flwyddyn.

Mae'r Cyngor Ysgol yn adrodd yn ôl am eu gwaith am y flynyddol i'r Llywodraethwyr yn nghyfarfod tymor yr Haf.

## Iechyd a Diogelwch

Mae Llywodraethwyr yr ysgol yn derbyn eu cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch y plant, staff a phawb sydd yn ymweld â'r ysgol. Mae cloeon diogelwch ar ddrysau yr ysgol a larwm diogelwch effeithiol. Cynhelir ymarfer tân unwaith pob tymor gyda staff a phlant yr ysgol.

## Amddiffyn Plant

Byddwn yn adolygu polisïau a dogfennau Amddiffyn Plant yn flynyddol. Bydd staff yr ysgol a staff ategol yn mynychu cyfarfodydd blynyddol gyda'r Pennaeth. Bydd pob aelod o staff a Llywodraethwr dynodedig yn derbyn cwrs blynyddol gan y pennaeth. Bydd is-bwyllgor y Amddiffyn Plant y Llywodraethwyr yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Hoffai'r corff Llywodraethol a'r gweithlu ddiolch o galon am gymorth parod y rhieni gyda phob trefniant yn ystod y flwyddyn. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y berthynas iach sydd rhwng yr ysgol, rhieni a'r gymuned.

Diolch.

## Dyddiadau tymor ysgol a gwyliau 2024-25

**Tymhorau:**

Hydref 2024 2 Medi 2024 - 20 Rhagfyr 2024

Gwanwyn 2025 6 Ionawr 2025 - 11 Ebrill 2025

Haf 2025 28 Ebrill 2025 - 21 Gorffennaf 2025

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Mercher, 4 Medi, 2024.

**GWYLIAU:**

28 Hydref - 1 Tachwedd 2024 (Hanner-Tymor)

23 Rhagfyr 2024 - 3 Ionawr 2025 (Gwyliau'r Nadolig)

24 - 28 Chwefror 2025 (Hanner-Tymor)

14 - 25 Ebrill 2025 (Gwyliau'r Pasg)

5 Mai 2025 (Calan Mai)

26 – 30 Mai 2025 (Hanner-Tymor)

22 Gorffennaf - 29 Awst 2025 (Gwyliau'r Haf)

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Llun, 1 Medi, 2025 i athrawon, a dydd Mawrth, 2 Medi i ddisgyblion (i'w gadarnhau)

Bydd diwrnodau ychwanegol o hyfforddiant mewn swydd i athrawon yn ystod y flwyddyn.